**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | **18.07.25** |
| **Pwnc / Subject:** | **Ymateb parthed Medr: Ymgynghoriad ar system reoleiddio newydd, gan gynnwys amodau cofrestru a chyllid** |



## Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**

Mae Estyn yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Rydym yn ystyried bod y dogfennau'n rhoi darlun clir yn gyffredinol o'r rheoleiddio cynlluniedig yn gysylltiedig â'r sector trydyddol sy'n amrywiol iawn o ran rhychwant oedran y dysgwyr a'r lefelau a'r dibenion y mae dysgwyr ôl-16 yn ymgysylltu ag addysg ar eu cyfer.

Rydym yn croesawu'r ffaith fod Medr yn cynnig gweithio gyda darparwyr ac eraill i ddatblygu'r ffyrdd y caiff y rheoliadau eu cyflawni dros gyfnod. Rydym yn croesawu'r ffaith fod Medr yn amlinellu disgwyliadau clir iddo'i hun a'r sector trydyddol ac y bydd yn gweithio i feithrin ymddiriedaeth o fewn y sectorau yn y sector trydyddol, ac ar eu traws, trwy ddeialog agored a thryloywder.

Rydym wedi codi nifer o bwyntiau i chi eu hystyried, sef:

- Defnydd awgrymedig o gyrchfannau fel meini prawf i asesu darparwr – ar hyn o bryd, mae'n haws casglu'r data hwn mewn rhai sectorau yn hytrach nag eraill. Felly, rydym yn awgrymu y bydd angen trafod hyn gyda darparwyr yn y sector trydyddol i weld sut gellir caffael data o'r fath yn ddibynadwy.
- Defnyddio deilliannau data i lywio cydymffurfio – er bod data meintiol ar gael yn hawdd fel canlyniad llawer o gyrsiau, mewn rhai sectorau, fel dysgu oedolion yn y gymuned, gellir mynegi deilliannau'n well mewn termau ansoddol. Bydd angen ystyried hyn yn ofalus er mwyn peidio â chreu anfantais i ddarparwyr sy'n darparu ar gyfer dysgwyr sy'n cymryd eu camau petrus cyntaf yn ôl i ddysgu, er enghraifft.
- Efallai bydd Medr yn dymuno ystyried atgyfnerthu'r cysyniad o fod yn seiliedig ar dystiolaeth trwy gyfeirio at yr angen i'r dystiolaeth fod yn ddibynadwy ac yn ddilys.
- Byddem yn awgrymu y dylid ychwanegu ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth at y rhestr o feini prawf ar gyfer asesu ansawdd addysg gan fod arweinwyr a rheolwyr yn ganolog i greu'r amgylchiadau y gall dysgwyr ffynnu ynddynt. Rydym yn cydnabod bod llywodraethu a rheoli yn amodau rheoleieddio ar wahân ond yn meddwl y bydd ffocws o fewn ansawdd yn bwysig, hefyd.

- Rydym yn nodi bod cyfeiriad at ddefnyddio setiau data meintiol fel maen prawf ond yn awgrymu y dylai deilliannau a adlewyrchir yn y setiau data gael eu hystyried o ran tueddiadau wrth lunio unrhyw farnau yn gysylltiedig â chydymffurfio.
- Rydym yn awgrymu y gallai Medr fod eisiau ystyried ychwanegu cyfnodau amser tybiannol at y lefelau ymyrraeth. Mae hyn yn helpu sicrhau ffocws darparwr ac i faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio gael eu rheoli mewn ffordd amserol.
- Fel y nodwyd yn y dogfennau, mae Medr yn cadw'r hawl i benderfynu p'un a fydd yn cyhoeddi achosion o ddiffyg cydymffurfio. Rydym yn awgrymu bod Medr yn gyson yn ei arfer o gyhoeddi achosion o ddiffyg cydymffurfio fel ei fod yn galluogi hyder y cyhoedd yn ei weithredoedd ac yn cyflawni ei ddyhead o dryloywder a bod yn agored.
- Mae Medr yn mynegi'r dyhead i ddarparwyr gydweithio'n llawnach yn y dyfodol i rannu arfer effeithiol ac arloesedd. Efallai bydd Medr yn dymuno ystyried ychwanegu gwybodaeth at y dogfennau ynglŷn â sut mae'n gweld ei rôl mewn hwyluso'r nod hwn.

Bydd gwaith arolygu, gwaith thematig a gwaith arolygwyr cyswllt Estyn yn darparu sail dystiolaeth werthfawr i gefnogi Medr yn ei fonitro parhaus ar draws nifer o'r amodau rheoleieddio / cyllido, nid dim ond yr hyn sy'n cael ei ddiffinio ar hyn o bryd fel 'ansawdd'. Er enghraifft, bydd ein tystiolaeth hefyd yn cefnogi monitro:
• Effeithiolrwydd llywodraethu a rheoli (yn cynnwys rheolaeth ariannol)
• Effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer cefnogi a hyrwyddo lles myfyrwyr a staff
• Cynlluniau diogelu dysgwyr
Y Cod Ymgysylltiad Dysgwyr
• Gwybodaeth a ddarperir i ddarpar fyfyrwyr
• Addysg cyfrwng Cymraeg

Gallai fod yn fuddiol amlinellu'r ffordd y bydd Medr yn gweithio gydag Estyn a'r corff ansawdd dynodedig (QAA) ar ddechrau'r dull rheoleiddio cyffredinol i roi sicrwydd i ddarparwyr trydyddol y bydd y gwaith yn plethu'n agos ac yn cefnogi'r dull rheoleiddio cyffredinol, ac felly'n gymesur yn unol â'r hyn a nodwyd. Er y cyfeirir at arolygiadau ac adolygiadau ansawdd mewn ychydig o leoedd yn y dulliau rheoleiddio cyffredinol, efallai na fydd darparwyr yn glir fod hyn yn golygu gweithio'n agos gydag Estyn a'r corff ansawdd dynodedig i gasglu tystiolaeth a hyrwyddo gwelliant.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Atodiad A: Dull Rheoleiddio a Phwerau Ymyrraeth**

**C 1: I ba raddau ydych chi'n cytuno y bydd ein Dull Rheoleiddio yn cefnogi ein gallu i gyflawni nodau ein cynllun strategol?**

**Cytuno**

Rydym yn croesawu'r datganiad eglur o fewn dull rheoleiddio Medr y bydd Medr yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'i nod i gyflawni ei weledigaeth i alluogi system addysg drydyddol ac ymchwil sy'n canolbwyntio ar anghenion dysgwyr, cymdeithas a'r economi gyda rhagoriaeth, cydraddoldeb ac ymgysylltiad yn ganolog iddi. Mae'r datganiad yn darparu cyfarwyddyd ac arweiniad clir ar yr egwyddorion sy'n sail i'r system reoleiddio.

Mae dogfen Atodiad A yn darparu manylion clir a defnyddiol am y cyd-destun strategol a nodau strategol penodol Medr. Mae'r ddogfen yn hynod fuddiol o ran datgan pob nod strategol yn glir ochr yn ochr ag amlinellu'r manylion ynghylch pam (yr amcan rheoleiddio) a sut (y dull rheoleiddio) y bydd Medr yn cyflawni ei ddyletswyddau rheoleiddio o ran pob un o'r pum nod strategol.

**C 2: I ba raddau ydych chi'n cytuno y bydd ein Dull Rheoleiddio yn cefnogi ein bwriad i fod yn rheoleiddiwr cymesur ac yn seiliedig ar risg?**

**Cytuno'n Gryf**

Rydym yn croesawu datganiad ymrwymiad a bwriad clir ac eglur Medr i ymgymryd â rheoleiddio mewn modd sy'n dryloyw, yn gymesur, yn gyson ac wedi'i seilio ar risg. Rydym hefyd yn croesawu'r aliniad dwfn â gwerthoedd Medr, sef Dysgu, Cydweithrediad, Cynhwysiant a Rhagoriaeth. Bydd y dull rheoleiddio hwn yn hynod fuddiol wrth osgoi neu leihau risg gorlethu darparwyr, sy'n aml yn deillio o ymagweddau safonol 'un math yn gweddu i bawb' at reoleiddio.

**C 3: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r athroniaeth, yr egwyddorion a'r disgwyliadau a amlinellir yn ein Dull Rheoleiddio?**

**Cytuno'n Gryf**

Rydym yn croesawu'r egwyddorion arweiniol clir a phriodol sy'n sail i athroniaeth reoleiddio ddatganedig Medr, o ran ei ddull cyffredinol a fabwysiadwyd sydd yn gymesur ac wedi'i seilio ar risg, yn ogystal â chyfuno rheoleiddio clir yn seiliedig ar reolau yn fwriadol gyda'i ddisgwyliadau dyheadol ar gyfer gwelliant parhaus ar draws addysg drydyddol yng Nghymru. Mae dull integredig felly o ran y sector trydyddol ôl-orfodol yn arloesol ac yn anghyffredin o gymharu â dulliau mewn gwledydd eraill . Yn sgil hyn, rydym yn ystyried bod y pwyslais cryf ar weithio'n agos gyda dysgwyr a darparwyr ar gynllunio'r fframwaith rheoleiddio yn briodol a chalonogol. Dylai profi sut bydd y dull a'r systemau rheoleiddio yn gweithio ar draws amrywiaeth o senarios fod yn ddefnyddiol i helpu osgoi neu leihau unrhyw ganlyniadau anfwriadol dulliau newydd o'r fath.

Mae'r datganiad clir am ofynion rheoleiddio a chymryd camau ymyrraeth a gorfodaeth lle mae diffyg cydymffurfio neu berfformiad gwael yn briodol ac yn angenrheidiol os yw

dulliau rheoleiddio am fod yn effeithiol. Rydym hefyd yn cydnabod ac yn croesawu'r bwriad a'r ymrwymiad clir i weithio gyda dysgwyr, darparwyr a'r llywodraeth i werthuso effeithiau'r dull rheoleiddio newydd er mwyn iddo allu gwella dros gyfnod er budd cyffredinol Cymru.

Rydym yn croesawu'n arbennig fwriad datganedig Medr i gyfuno a defnyddio llawer o agweddau ar arddulliau rheoleiddio er mwyn gallu trefnu goruchwyliaeth i adlewyrchu lefelau amrywiol o risg a pherfformiad. Dylai hyn fod yr un mor fuddiol i ddarparwyr a Medr a helpu sefydlu a chynnal ymddiriedaeth ar y ddwy ochr rhyngddynt tra'n galluogi Medr i ganolbwyntio ymdrech ac ymyrraeth rheoleiddio lle mae eu hangen fwyaf ac yn gallu bod yn fwyaf effeithiol er budd dysgwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Croesewir pwyslais ar ddulliau rheoleiddio yn seiliedig ar nodau gan gynnwys ymrwymiad cryf i hunanreoleiddio a chyfrifoldeb sefydliadol hefyd gan ei fod yn gyson â grymuso darparwyr i fabwysiadu dulliau rhagweithiol i reoli risgiau, yn ogystal â helpu sicrhau atebolrwydd i ddysgwyr a rhanddeiliaid. Hefyd, ystyrir bod y dulliau hyn yn cael eu cefnogi gan y cysylltiadau clir ac eglur â gwerthoedd craidd Medr, ac yn gyson â nhw, sef dysgu, cydweithio, cynhwysiant a rhagoriaeth, ynghyd â'r esboniad defnyddiol o'r deg egwyddor rheoleiddio a fydd yn darparu'r fframwaith ar gyfer sut bydd Medr yn sefydlu ac yn cyflawni ei ofynion rheoleiddio.

Mae'r adran ar ddisgwyliadau yn esbonio'n fuddiol saith disgwyliad allweddol Medr o ddarparwyr. Fodd bynnag, mae'n canolbwyntio'n helaeth ar yr hyn y mae Medr yn ei ddisgwyl. I adlewyrchu tôn gydweithredol y ddogfen yn well, gallai hefyd egluro'r hyn y gall darparwyr ei ddisgwyl gan Medr.

Er ein bod yn croesawu pwyslais clir ar ddeilliannau mesuradwy a thryloywder, byddem yn pwysleisio hefyd fod angen sicrhau bod ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i ddangosyddion meintiol ac ansoddol ehangach o ddeilliannau ac effaith. Mae hyn yn hynod bwysig wrth ystyried a gwerthuso data ar ddangosyddion deilliannau dysgu er mwyn osgoi gormod o bwyslais ar ddeilliannau cymwysterau heb ystyried hefyd y pellter a deithiwyd gan ddysgwyr unigol a buddion personol, cymdeithasol ac economaidd ehangach a allai godi o gyfranogi ac ymgysylltu mewn dysgu.

Rydym yn croesawu'r pwyslais ar ddysgwyr a dysgu drwyddi draw ac mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd cael ymagwedd genedlaethol gyson at holiaduron adborth dysgwyr ar draws pob darparwr trydyddol i gefnogi'r pwyslais hwn.

**C 4: A allai'r Dull Rheoleiddio, fel y mae wedi'i amlinellu, gael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob un o'r darparwyr trydyddol?**

**Yn rhannol**

Er ein bod yn cydnabod bod y dulliau rheoleiddio a amlinellir yn y dogfennau ymgynghori wedi cael eu hysgrifennu a'u bwriadu i gael eu cymhwyso ar lefel uchel ar draws y sector

trydyddol cyfan, rydym hefyd o'r farn ei bod yn bwysig cydnabod a phwysleisio y bydd y trefniadau manylach yn cael eu datblygu i weddu i gyd-destunau penodol is-sectorau unigol, ac mai felly y dylai fod, lle mae'n briodol ac yn fuddiol gwneud hynny. Er enghraifft, mae cyd-destun ac ymreolaeth sefydliadau addysg uwch dynodedig sydd â phwerau dyfarnu graddau yn wahanol iawn i'r cyd-destun cyflwyno mewn colegau addysg bellach, darparwyr prentisiaethau a phartneriaethau dysgu oedolion. Er y gallai egwyddorion rheoleiddio trosfwaol gael eu cymhwyso'n gyson, mae'n debygol y bydd y mecanweithiau a'r ymyriadau rheoleiddio manwl yn fwyaf effeithiol pan gânt eu ffurfio gan wahaniaethau allweddol mewn gwahaniaethau cyd-destunol. Dylid rhoi ystyriaeth hynod ofalus a phwys i gadw ffocws cryf a hollbwysig ar ddysgwyr a dysgu ar draws y sector.

**Os na neu'n rhannol, rhowch fanylion am sut gallai gael ei gymhwyso'n gyson.**

Awgrymir y dylid cael ffocws cryf parhaus ar egwyddorion trosfwaol a manyleb lefel uchel o athroniaeth, egwyddorion a disgwyliadau cyffredinol yn hytrach nag ymagweddau benodedig cyffredin at ddangosyddion perfformiad a strategaethau ymyrraeth ar draws pob is-sector.

**C 5: A yw'r Dull Rheoleiddio yn cael ei adlewyrchu'n ddigonol ar draws y gwahanol Amodau Cofrestru ac Amodau Cyllido a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn?**

**Ydy**

Mae'r ddogfen ymgynghori yn amlinellu'n ddefnyddiol amodau gwahanol allweddol cofrestru ac amodau cyllid ar ffurf tabl. Mae'r tabl hefyd yn darparu eglurder defnyddiol ar ba amodau cofrestru sy'n amodau cychwynnol a pha rai sy'n amodau parhaus yn gysylltiedig â darparwyr addysg uwch. Mae'r tabl hefyd yn galluogi darllenwyr i nodi'n glir yr amodau cyllid hynny sy'n berthnasol i ddarparwyr addysg a hyfforddiant trydyddol eraill a sut mae'r rhain yn ailadrodd llawer o'r amodau cofrestru parhaus sy'n berthnasol i ddarparwyr addysg uwch.

Rydym yn croesawu'n arbennig yr eglurder ynghylch sut bydd dosbarthiadau chweched yn cael eu rheoleiddio trwy awdurdodau lleol, yn ogystal ag eglurhad fod gan Medr bwerau i ymyrryd neu rybuddio gweinidogion Cymru, sydd hefyd â phwerau i ymyrryd mewn sefydliadau addysg bellach. Mae'r canllawiau'n nodi yr ymdrinnir â dosbarthiadau chweched ysgolion ychydig yn wahanol oherwydd y fframwaith rheoleiddio presennol. Mae'n nodi y byddai unrhyw ymgysylltiad gan Medr yn digwydd gydag awdurdod lleol yn unig. Gallai fod yn fuddiol cyfeirio at y ddogfen berthnasol Canllawiau statudol ysgolion sy'n achosi pryder. Hefyd, efallai bydd angen cysylltu â Llywodraeth Cymru o ran chweched dosbarth ysgol sy'n achosi pryder a lle nad yw Medr o'r farn fod yr awdurdod lleol yn cymryd camau priodol – a ddylid cyfeirio at hyn?

**C 6: Os oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill yn gysylltiedig â'n dull rheoleiddio, nodwch nhw yma:**

Byddai eglurhad ychwanegol hefyd yn ddefnyddiol ar sut byddai unrhyw drefniadau rheoleiddio manwl yn cael eu cymhwyso i'r sefydliadau hynny sydd â darpariaeth weithredol ar draws llawer o sectorau neu fathau o ddarpariaeth. Mae hyn yn cynnwys colegau addysg bellach sy'n arwain ac yn cyflwyno cyrsiau addysg uwch, darpariaeth prentisiaethau, ac/neu'n gweithredu fel arweinwyr mewn partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned.

**C 7: I ba raddau ydych chi'n cytuno bod yr ymyriadau'n cyd-fynd â bwriadau'r Ddeddf?**

**Cytuno**

Rydym yn ystyried bod y pwerau ymyrraeth penodol a amlinellir yn yr ymgynghoriad yn cyd-fynd yn briodol â bwriadau Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru 2022. Mae'n hynod ddefnyddiol fod y pwerau ymyrraeth hyn wedi cael eu hamlinellu'n glir mewn adrannau ar wahân mewn cysylltiad â darparwyr cofrestredig, darparwyr allanol, darparwyr addysg a hyfforddiant pellach a ariennir, dosbarthiadau chweched ysgolion a ariennir a darpariaeth drydyddol arall yng Nghymru. Mae hefyd yn fuddiol fod pob un o'r amodau cofrestru a pharhaus wedi'u hamlinellu'n glir ynghyd â'r raddfa amser i'r rhain ddod i rym.

Rydym yn croesawu'n arbennig y pwyslais cryf a chlir o fewn yr adran am ddarparwyr cofrestredig ar yr angen i wybodaeth ddangos tystiolaeth o gynaliadwyedd ariannol darparwyr, digonolrwydd ei lywodraethu a'i reolaeth ynghyd ag ansawdd ei ddarpariaeth. Rydym hefyd yn nodi'r ffyrdd yr enghreifftir monitro cydymffurfio ag amodau cofrestru parhaus, a monitro ansawdd darpariaeth drydyddol, yn y ddogfen ymgynghori.

Mae'r canllawiau hefyd yn egluro'r trefniadau ar gyfer monitro darpariaeth allanol neu y bydd darpariaeth 'ryddfreiniol' yn cael ei monitro o ran cydymffurfio. Mae'r dogfennau'n egluro sut bydd Medr yn monitro cydymffurfiad ag amodau cyllido o fewn darparwyr addysg a hyfforddiant pellach a ariennir. Mae eglurder ychwanegol ar ddosbarthiadau chweched mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru a'r gofyniad statudol i'r rhain gydymffurfio â'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn rhoi'r eglurder angenrheidiol, a dylai helpu osgoi amwysedd a dryswch posibl.

**C 8: I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y Datganiad Ymyrraeth yn cyd-fynd â'n Dull Rheoleiddio?**

**Cytuno'n Gryf**

Mae'r datganiad ymyrraeth manwl yn darparu datganiad clir a phriodol diweddaredig am yr amgylchiadau y bydd gwahanol fathau o ymyrraeth yn cael eu hystyried a'u gweithredu ynddynt. Mae'r ystyriaethau dan sylw wedi eu hamlinellu'n glir fel rhan o'r datganiad hwn. Mae'r ystyriaethau hyn, gan gynnwys difrifoldeb, dyfalbarhad, y camau a gymerodd y darparwr, y cyd-destun, y risgiau a achosir a'r goblygiadau i ddyletswyddau statudol Medr, wedi'u hamlinellu'n briodol ac yn rhesymol. Mae'r bwriad i ymateb i faterion fesul achos yn cyd-fynd yn dda iawn â dull rheoleiddio cyffredinol Medr, a bydd yn galluogi Medr i ystyried y ffactorau hyn yn hyblyg ynghyd â ffactorau perthnasol eraill, gan gynnwys y pwys sydd ynghlwm wrth bob un o'r ffactorau hyn.

Mae cynrychiolaeth weledol o'r ystyriaethau i ymyriadau posibl yn cynnig eglurder ynglŷn â'r hyn allai fod yn yn senarios cymhleth ac ystyriaethau cymhleth wrth wneud penderfyniadau. Mae'r sbectra ymyriadau rheoleiddio hefyd yn effeithiol o ran darparu arweiniad a gwybodaeth ddefnyddiol yn ymwneud ag ystyriaethau wrth wneud penderfyniadau. Darperir dolenni priodol at agweddau penodol ar ddeddfwriaeth yn briodol o fewn y ddogfen, hefyd. Mae cyfeirio at y mathau o ddarparwr y mae'r pwerau ymyrraeth yn berthnasol iddynt wedi'u hamlinellu'n glir, hefyd.

Ystyriwyd ei bod y tu hwnt i gwmpas yr ymateb hwn i ddarparu ymatebion manwl i bob agwedd ar y senarios ymyrraeth gan y byddai angen cyngor cyfreithiol manwl ar gyfer hyn. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod cyflwyno'r prosesau wedi'i amlinellu'n glir o ran camau rhesymegol a graddfeydd amser priodol, ac fe'u dangosir yn ddefnyddiol gan ddefnyddio cyfres o siartiau llif.

Er bod yr eglurder a'r manylder hwn yn fuddiol i gefnogi cymhwyso a dealltwriaeth gyson, mae'r canllawiau cyffredinol yn hir a chymhleth. Efallai bydd Medr eisiau ystyried sut mae'n crynhoi hanfod y dull, er enghraifft ar un ochr A4, i allu cyfathrebu'n glir â'r ystod eang o randdeiliaid sydd â buddiant, gan gynnwys dysgwyr.

**C 9: A fyddai canllawiau atodol ar gyfer y datganiad yn fuddiol?**

**Byddent**

**Nodwch y meysydd lle byddai canllawiau atodol yn fuddiol.**

Byddai'n ddefnyddiol darparu canllawiau atodol neu becynnau cymorth wedi'u teilwra i anghenion rhanddeiliaid allweddol, er enghraifft wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion aelodau o'r cyrff llywodraethol.

**Atodiad B – Fframwaith Rheoleiddio**

**Trefniadau Monitro**

**C 1: Yn y Datganiad, rydym wedi darparu dau fodel posibl ar gyfer ein dull i ymgysylltu â'r darparwyr hynny yr ydym yn eu monitro – a oes gennych chi unrhyw sylwadau yn gysylltiedig â hyn?**

Mae'r ddau fodel posibl defnyddiol ac yn briodol o bosibl wrth helpu sicrhau cydbwysedd rhwng monitro cydymffurfio targedig ac ymgysylltu strategol ehangach. Mae'r datganiad ar ddull monitro Medr yn amlinellu'n glir y materion allweddol y mae angen eu hystyried fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau, gan gynnwys egwyddorion rheoleiddio Medr, ei ddyletswyddau statudol a'u hymrwymiad i ddatblygu system oruchwylio gymesur, yn seiliedig ar risg i gefnogi cyflawni cydymffurfio rheoleiddio a meithrin sector addysg drydyddol sydd â gwelliant parhaus yn ei hanfod.

Rydym yn croesawu'r awydd a'r bwriad i fabwysiadu ymagwedd 'dim syndod' at fonitro ac mae hyn yn adlewyrchu ac yn cyd-fynd yn dda ag ymrwymiad hirsefydledig Estyn i ddull o'r fath fel rhan o'i drefniadau arolygu. Rydym hefyd yn cefnogi'n gryf yr elfen ganolog, sef y pwyslais datganedig ar hunanadrodd, gan gynnwys trwy'r broses digwyddiadau adroddadwy. Yn yr un modd, rydym yn rhannu ymrwymiad Medr i leihau baich ddiangen. Rydym yn cytuno y dylai'r gweithgarwch monitro ystyried y ddau ddimensiwn risg allweddol datganedig wrth bennu natur ac amlder monitro, sef yr awydd am risg sy'n gysylltiedig ag amodau penodol ynghyd â'r risg sy'n gysylltiedig â'r darparwr. Bydd pwysigrwydd tystiolaeth amserol, ddilys a dibynadwy yn allweddol i sicrhau llwyddiant trefniadau o'r fath, fel y bydd tryloywder gwneud penderfyniadau.

Mae'n debygol y bydd yr anghenion a'r bwriadau hyn yn cael eu gwasanaethu orau gan ddefnydd teilwredig o'r modelau hyn i'r arwyddocâd a'r amgylchiadau penodol yn ymwneud ag agweddau penodol ar bob amod. Gallai hefyd fod yn briodol esblygu'r dulliau i amodau ac amgylchiadau unigol dros gyfnod amser, wrth i'r trefniadau hyn gael eu hymgorffori fwy a dod yn effeithiol fel rhan o ddull ymreolaeth ymddiriedus tryloyw a enillwyd.

**C 2: A oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'r ymagwedd arfaethedig at fonitro cydymffurfio ag Amodau Cofrestru / Cyllido?**

Mae'r ymagwedd arfaethedig at gyflwyno Datganiad Sicrhau Ansawdd Blynyddol craidd yn ymddangos yn rhesymol a phriodol wrth gwmpasu meysydd allweddol cydymffurfio a risg, gan gynnwys cydymffurfio ag Amodau Cofrestru / Cyllido. Mae'r pwyslais ar asesiad o gydymffurfio mewnol trylwyr ac yn seiliedig ar dystiolaeth yn erbyn pob un o'r amodau cofrestru a chyllid yn gwbl briodol a hanfodol i gyflawni a chynnal cydymffurfio.

**Cynaliadwyedd Ariannol**

**C 3: A allai'r amodau o ran Cynaliadwyedd Ariannol gael eu cymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr trydyddol?**

Dylid cymhwyso ystyriaeth ac amod cyffredinol cynaliadwyedd ariannol yn gyson ar draws pob darparwr trydyddol fel man cychwyn sylfaenol. Fodd bynnag, dylid rhoi ystyriaeth briodol i effaith digwyddiadau neu amgylchiadau annisgwyl ac allanol wrth benderfynu ar natur ac amseriad ymyrraeth briodol.

**C 4: A yw gofynion yr amod yn gymesur?**

Rydym yn ystyried bod gofynion yr amod hwn yn rhesymol a chymesur.

**C 5: A yw'r amod hwn yn darparu eglurder digonol ynghylch gofynion?**

Rydym yn ystyried bod y gofynion yn gysylltiedig â'r amod hwn wedi'u hamlinellu'n ddigon eglur a gyda manylion priodol.

**Llywodraethu a Rheoli (yn cynnwys Rheolaeth Ariannol)**

**C 6: A allai'r amod o ran Llywodraethu a Rheoli gael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr trydyddol?**

O ystyried natur a graddau ymglymiad cyllid cyhoeddus, rydym yn ystyried ei bod yn bwysig cymhwyso'r amod o ran Llywodraethu a Rheoli yn gyson ar draws pob darparwr trydyddol fel man cychwyn cyffredin. Rhaid cyfiawnhau unrhyw amrywiad mewn dull yn glir ac yn dryloyw er mwyn sicrhau atebolrwydd cyhoeddus a gwarchod budd y cyhoedd.

Gall tystiolaeth arolygu Estyn gynorthwyo Medr i gefnogi cydymffurfio a gwelliant yn yr agwedd hon.

**C 7: A yw gofynion yr amod yn gymesur?**

Rydym yn ystyried bod gofynion manwl yr amod yn gymesur ac wedi'u cyfiawnhau.

**C 8: A yw'r amod hwn yn darparu eglurder digonol ynghylch gofynion?**

Rydym yn ystyried bod y gofynion a'r canllawiau atodol ar elfennau unigol ynglŷn â'r amod hwn wedi'u hamlinellu mewn manylion priodol ac yn darparu eglurder digonol.

**Ansawdd**

**C 9: A allai'r amod o ran Ansawdd gael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr trydyddol?**

Mae'r amod o ran Ansawdd wedi'i ysgrifennu ar lefel sy'n briodol o uchel fel y gellir ei gymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr trydyddol. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod na fydd natur trefniadau manwl bob amser yn cael ei chyflawni trwy fabwysiadu dull cyffredin ar gyfer gweithredu. Er enghraifft, efallai y bydd angen amrywio trefniadau hunanwerthuso ac adolygu allanol neu drefniadau arolygu yn dibynnu ar y cyd-destun ac ymreolaeth, yn ogystal â threfniadau cyllido penodol sy'n berthnasol i is-sectorau unigol y sector trydyddol cyfan.

**C 10: A yw gofynion yr amod yn gymesur?**

Mae gofynion yr amod wedi'u hamlinellu mewn lefel briodol uchel o fanylder i fod yn gymesur. Rydym yn croesawu'n arbennig y pwyslais cryf ar welliant parhaus a phwysigrwydd dysgu proffesiynol parhaus wrth gefnogi hyn.

**C 11: A yw'r amod hwn yn darparu eglurder digonol ynghylch gofynion?**

Rydym yn ystyried bod yr amod hwn yn darparu eglurder digonol ynghylch gofynion.

**Ystyriaeth i Gyngor ac Arweiniad**

**C 12: A allai'r amod o ran Ystyriaeth i Gyngor ac Arweiniad gael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr trydyddol?**

Na – rydym yn ystyried bod y ffordd y lluniwyd yr amod hwn, sef ei fod yn berthnasol i bob un o'r sefydliadau sydd wedi eu cofrestru gyda Medr yn y categorïau Craidd ac Amgen Addysg Uwch, yn briodol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd angen i Medr ystyried sut bydd yn dylanwadu ar ddarparwyr trydyddol eraill trwy gyngor ac arweiniad – a fydd hyn trwy delerau ac amodau cyllido?

**A 13: A yw gofynion yr amod yn gymesur?**

Ydyn – mae'n ymddangos bod gofynion yr amod yn gymesur.

**A 14: A yw'r amod hwn yn darparu eglurder digonol ynghylch gofynion?**

Mae'n ymddangos bod eglurder digonol yn cael ei ddarparu ar gyfer yr amod hwn.

**Gwybodaeth a Ddarperir i Ddarpar Fyfyrwyr**

**C 15: A allai'r amod o ran gwybodaeth a ddarperir i Ddarpar Fyfyrwyr gael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr trydyddol?**

Na – rydym yn ystyried bod y ffordd y lluniwyd yr amod hwn, sef ei fod yn berthnasol i bob un o'r sefydliadau sydd wedi eu cofrestru gyda Medr yn y categorïau Craidd ac Amgen Addysg Uwch, yn briodol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd angen i Medr ystyried sut gall darpar fyfyrwyr gael gwybodaeth am ddarparwyr addysg drydyddol eraill, hefyd. Rydym yn cydnabod bod hyn yn fwy cymhleth, ond mae llawer o'n hadroddiadau thematig ac arolygu wedi amlygu diffygion yn y cyngor a'r arweiniad a ddarperir i fyfyrwyr am eu hopsiynau addysg neu gyflogaeth yn y dyfodol. Rydym hefyd wedi amlygu diffygion yn y modd y mae partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yn hyrwyddo ystod eu darpariaeth ymhlith darpar ddysgwyr.

**C 16: A yw gofynion yr amod yn gymesur?**

Ydyn – mae'n ymddangos bod gofynion yr amod yn gymesur.

**C 17: A yw'r amod hwn yn darparu eglurder digonol ynghylch gofynion?**

Mae'n ymddangos bod eglurder digonol yn cael ei ddarparu ar gyfer yr amod hwn.

**Cyfyngiadau Ffioedd**

**C 18: A allai'r amodau o ran Cyfyngiadau Ffioedd gael eu cymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr trydyddol?**

Na – rydym yn ystyried bod y ffordd y lluniwyd yr amod hwn, sef ei fod yn berthnasol i bob un o'r sefydliadau sydd wedi eu cofrestru gyda Medr yn y categori Craidd Addysg Uwch, yn briodol ar hyn o bryd.

**C 19: A yw gofynion yr amod yn gymesur?**

Ydyn – mae’n ymddangos bod gofynion yr amod yn gymesur.

**C 20: A yw’r amod hwn yn darparu eglurder digonol ynghylch gofynion?**

Mae’n ymddangos bod eglurder digonol yn cael ei ddarparu ar gyfer yr amod hwn.

**Hysbysu am Newidiadau sy’n Effeithio ar Gywirdeb Gwybodaeth**

**C 21: A allai’r amod o ran Hysbysu am Newidiadau sy’n Effeithio ar Gywirdeb Gwybodaeth gael ei gymhwyso’n gyson ar draws pob darparwr trydyddol?**

Na – rydym yn ystyried bod y ffordd y lluniwyd yr amod hwn, sef ei fod yn berthnasol i’r darparwyr hynny yn y naill neu'r llall o’r categorïau Craidd ac Amgen Addysg Uwch, yn briodol ar hyn o bryd.

**C 22: A yw gofynion yr amod yn gymesur?**

Ydyn – mae’n ymddangos bod gofynion yr amod yn gymesur.

**C 23: A yw’r amod hwn yn darparu eglurder digonol ynghylch gofynion?**

Mae’n ymddangos bod eglurder digonol yn cael ei ddarparu ar gyfer yr amod hwn.

**Statws Elusennol**

**C 24: A allai’r amod o ran Statws Elusennol gael ei gymhwyso’n gyson ar draws pob darparwr trydyddol?**

Na – rydym yn ystyried bod y ffordd y lluniwyd yr amod hwn, sef ei fod yn berthnasol i bob un o’r sefydliadau sydd wedi eu cofrestru gyda Medr yn y categori Craidd Addysg Uwch, yn briodol ar hyn o bryd.

**C 25: A yw gofynion yr amod yn gymesur?**

Ydyn – mae’n ymddangos bod gofynion yr amod yn gymesur.

**C 26: A yw’r amod hwn yn darparu eglurder digonol ynghylch gofynion?**

Mae'n ymddangos bod eglurder digonol yn cael ei ddarparu ar gyfer yr amod hwn.

**Proses Digwyddiadau Adroddadwy**

**C 27: A allai'r amod o ran Proses Digwyddiadau Adroddadwy gael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr trydyddol?**

Gallai – rydym yn ystyried bod y ffordd y lluniwyd yr amod hwn, sef ei fod yn berthnasol i bob un o'r darparwyr a ariennir a'r darparwyr cofrestredig, a phob un o'r amodau cofrestru a chyllid, yn briodol.

**C 28: A yw gofynion yr amod yn gymesur?**

Ydyn – mae'n ymddangos bod gofynion yr amod yn gymesur ac yn adlewyrchu difrifoldeb ac effaith risg bosibl yr amod hwn yn briodol.

**C 29: A yw'r amod hwn yn darparu eglurder digonol ynghylch gofynion?**

Mae'n ymddangos bod eglurder digonol yn cael ei ddarparu ar gyfer yr amod hwn.

**C 30: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ychwanegol ynghylch yr Amodau Cofrestru?**

Nid oes gennym ni unrhyw sylwadau ychwanegol yn ystod y cam hwn yn yr ymgynghoriad.

**Atodiad C – Fframwaith Ansawdd**

**Adran A: Cyflwyniad, cefndir a chwmpas**

**C 1: I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y drafft yn amlinellu'n glir y sail statudol ar gyfer y Fframwaith a'r hyn y bwriedir iddo'i gyflawni?**

**Cytuno'n gryf**

Rydym yn cytuno'n gryf fod y cyflwyniad, y cefndir a'r cwmpas yn amlinellu'n glir, ac mewn dilyniant rhesymegol, y sail statudol ar gyfer y Fframwaith a'r hyn y mae Medr yn bwriadu ei gyflawni.

**C 2: A yw cwmpas y diffiniad o ansawdd yn briodol?**

**Nac ydy**

Ar y cyfan, rydym yn cytuno bod cwmpas y diffiniad o ansawdd yn briodol. Mae'r dogfennau'n darparu rhesymeg glir ynghylch sut mae Medr wedi llunio'i ddiffiniad o ansawdd a sut mae'r diffiniad wedi'i gysylltu â'i gynllun strategol ei hun a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector trydyddol. Mae'r dogfennau hefyd yn glir am gydnabod bod natur y gwahanol sectorau o fewn y sector ôl-16 yn golygu y gallai fod gwahanol ddulliau o werthuso ansawdd ar hyn o bryd. Rydym yn credu bod y diffiniad o ansawdd gyda'r dysgwyr a'u profiad yn ganolog i'r meddwl yn allweddol i ddatblygu gwelliant parhaus.

Fel rhan o werthuso ansawdd, mae Medr yn cyfeirio at ystyried dilyniant dysgwyr i gyflogaeth neu astudio ymhellach fel dangosydd ansawdd. Byddem yn awgrymu y bydd angen i Medr ystyried gyda rhanddeiliaid yn ddiweddarach sut gallai'r rhanddeiliaid ddarparu gwybodaeth ddibynadwy a dilys i Medr, gan fod y dangosydd hwn yn anodd iawn i'w olrhain o ran myfyrwyr unigol ar hyn o bryd.

Rydym yn cytuno bod y pileri ar gyfer asesu ansawdd yn briodol ac o'r farn fod cynnwys ansawdd a math y dysgu a'r datblygiad proffesiynol yn addas ac yn angenrheidiol.

**Os na, pa eglurhad pellach sydd ei angen?**

Ym mharagraff 16 Atodiad C, mae'r cwmpas yn cynnwys 'ansawdd y cymorth ar gyfer dysgu i alluogi dysgwyr i: lwyddo ni waeth beth yw eu cefndir neu'u nodwedd warchodedig'. Byddai'n ddefnyddiol cyfeirio'n eglur at anghenion dysgu ychwanegol a niwrowahaniaeth yma, hefyd, gan nad yw'r rhain fel arfer yn cael eu deall fel rhan o gefndir dysgwr, ac yn aml, nid yw'r naill na'r llall yn cael ei ystyried na'i drin fel anabledd, sef yr hyn a fyddai'n cael ei ystyried fel y nodwedd warchodedig berthnasol agosaf. Bydd cynnwys ADY a niwrowahaniaeth yn benodol yn sicrhau bod angen ystyried cyfran fawr y dysgwyr niwrowahanol a'r dysgwyr ag ADY mewn ystyriaethau a gwerthusiadau ansawdd. Rydym yn awgrymu y dylai'r cwmpas ddweud: 'ansawdd y cymorth ar gyfer dysgu i alluogi dysgwyr i: lwyddo ni waeth beth yw eu cefndir, eu nodwedd warchodedig, eu hangen dysgu ychwanegol neu niwrowahaniaeth'. Rydym yn cydnabod bod diffiniad cyfreithiol o ran angen dysgu ychwanegol o ran Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), ac yn ei ddefnyddio yma gyda'r diffiniad hwnnw ond yn cydnabod na fyddai'r ddeddfwriaeth o reidrwydd yn berthnasol ar draws yr holl ddarpariaeth addysg drydyddol.

**Adran B: Egwyddorion**

**C 3: I ba raddau ydych chi'n cytuno bod yr egwyddorion arfaethedig yn briodol?**

**Cytuno**

Rydym yn cytuno bod yr egwyddorion arfaethedig yn briodol i nodau Medr.

Mae'r egwyddor y dylai fod cysondeb yn neilliannau dysgwyr yn un y byddai pob un ohonom yn gobeithio y gall darparwyr ei gyflawni. Er ei bod yn cael ei nodi y bydd y prosesau ansawdd a'r cymorth yn wahanol yn dibynnu ar y sector, nid yw'n nodi bod natur y dysgwyr mewn sectorau yn wahanol – er enghraifft, mewn dysgu oedolion yn y gymuned, mae dysgwyr yn mynychu ystod eang o gyrsiau at wahanol ddibenion: gallai rhai ohonynt fynychu i wella'u medrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol, gallai rhai eraill fod yn cymryd eu camau petrus cyntaf i ddatblygu eu hyder ar lefel bersonol ac addysg, tra gallai dysgwyr hŷn eraill fynychu dosbarthiadau i gadw eu hymennydd a'u cyrff yn weithredol, yn ogystal â gwella'u dealltwriaeth o bwnc. Felly, er bod gan sectorau eraill ddata sy'n gysylltiedig â llwyddiant mewn cymwysterau, byddem yn awgrymu y bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r hyn y mae llwyddiant yn ei olygu mewn sector fel dysgu oedolion yn y gymuned.

Er ein bod yn cytuno â'r egwyddor y dylai gwerthusiadau yn hunanasesiad darparwr fod wedi'u seilio ar dystiolaeth, byddem yn awgrymu y dylid gofyn i ddarparwyr ddangos dibynadwyedd a dilysrwydd y dystiolaeth honno.

Rydym yn cytuno â'r egwyddor y dylai Medr fabwysiadu dull cydlynus gyda rheoleiddwyr eraill. Credwn y bydd hyn yn cyfrannu at y natur agored a'r tryloywder y mae Medr yn dyheu amdanynt, ac at feithrin a chynnal ymddiriedaeth ar draws y sector trydyddol gan na fydd un farn yn unig am berfformiad darparwr.

**Adran C: Meini prawf ar gyfer asesu ansawdd addysg**

**C 4: Pa nodweddion arfaethedig o'r fframwaith ansawdd fyddai'n cael yr effaith fwyaf / yn ychwanegu'r gwerth mwyaf wrth gynnal a gwella ansawdd dros gyfnod?**

Rydym yn cytuno bod y saith maen prawf ar gyfer asesu ansawdd addysg yn bwysig ac yn briodol. Fodd bynnag, byddem yn annog Medr yn gryf i ystyried ychwanegu at y meini prawf 'effeithiolrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth'. Mae ein tystiolaeth o arolygu ac adolygiadau thematig ar draws ystod y darparwyr yn y sector trydyddol yn cadarnhau bod ansawdd yr arweinwyr a'r rheolwyr sydd â'r cyfrifoldeb am y ddarpariaeth a phrofiad dysgwyr o ddydd i ddydd yn allweddol i effeithiolrwydd darparwr. I gyflawni'r dyheadau a'r nodau ar gyfer addysg drydyddol fel yr amlinellir gan Lywodraeth Cymru a Medr, mae angen arweinwyr ar y sector addysg drydyddol sydd â gweledigaeth glir yn gysylltiedig â'r olaf o'r rhain, ynghyd â'r gallu i ddatblygu cyfeiriad strategol clir. Mae angen arweinwyr canol sy'n deall y weledigaeth a'r cyfeiriad strategol ac sy'n gallu gwireddu'r rhain yn effeithiol ar lefel weithredol. Rydym yn cydnabod bod amod rheoleiddio ar wahân yn gysylltiedig â rheolaeth a llywodraethu ond yn teimlo y byddai ychwanegu elfen o fewn y maes ansawdd yn cryfhau hyn ymhellach.

**Adran Ch: Rolau a chyfrifoldebau Medr a darparwyr ynghylch ansawdd addysg drydyddol**

**C 5: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig, sy'n nodi rolau a chyfrifoldebau ar draws pob piler?**

**Cytuno**

Rydym yn cytuno â'r dull i amlinellu rolau a chyfrifoldebau rhanddeiliaid o ran y pileri. Mae hyn yn darparu eglurder ac yn meithrin ymddiriedaeth yn y system.

**C 6: Pa ddull asesu ansawdd allanol sy'n ychwanegu'r gwerth mwyaf o ran cynnal ansawdd a gyrru gwelliant?**

Ein profiad ni yw bod arolygu diduedd gan ddefnyddio fframwaith arolygu cyffredin yn darparu dull cyson o ran y meysydd a fydd yn cael eu gwerthuso a gyda chyfeiriad at y cyd-destun y gwneir y ddarpariaeth ynddo, yn cyfrannu'n sylweddol at gynnal a gyrru gwelliant. Mae arolygu o fewn cylch rheolaidd yn darparu darlun cyfannol, yn seiliedig ar dystiolaeth, o'r darparwr, y ddarpariaeth a'r profiadau dysgu ar gyfer y dysgwr, y trethdalwr a Medr, gan ddefnyddio cwestiynau allweddol sy'n edrych yn fanwl ar ansawdd ac effaith addysgu, lles dysgwyr, diogelu ac arweinyddiaeth a rheolaeth ar brofiadau a chyflawniadau dysgwyr. Mae deilliannau arolygu, fel argymhellion a gweithgarwch dilynol, lle mae angen, yn helpu'r darparwr i ganolbwyntio ar faterion i'w gwella, fel y gwelir o'r tu allan. Mae ymweliadau gan arolygwyr yn gysylltiedig â'r darparwr yn helpu cynhyrchu deialog broffesiynol adeiladol am welliant ac yn helpu nodi materion mewn modd amserol.

Mae adolygu thematig yn fuddiol wrth edrych ar faterion penodol mewn addysg drydyddol a phennu pa mor leoledig neu eang ydynt yn ymarferol yng Nghymru. Mae adolygiadau thematig yn benodol yn gyfrwng da ar gyfer rhannu arfer effeithiol ac arloesedd mewn sector, ac yn ehangach ar draws y sector trydyddol cyfan. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at nod Medr am welliant parhaus ac arloesedd o fewn y sector trydyddol. Maent yn galluogi Medr i edrych yn fwy systemig ar agwedd ar ansawdd addysg a hyfforddiant a thargedu cymorth ar gyfer gwella yn seiliedig ar y canfyddiadau. Maent yn fuddiol o ran gyrru ymlaen a gwirio effaith gwaith yn gysylltiedig â blaenoriaethau strategol allweddol ar gyfer Medr.

**Adran D: Prosesau ar gyfer asesu ansawdd addysg**

**C 7: Mae'r Fframwaith yn amlinellu ystod o setiau data i gefnogi asesiadau cydymffurfio â'r Fframwaith Ansawdd. I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y ffynonellau data arfaethedig yn briodol?**

**Cytuno**

Rydym yn cytuno y bydd y setiau data a gynigir yn cefnogi asesu cydymffurfio. Fodd bynnag, byddem yn awgrymu, yn achos mater ffiniol, y dylai Medr allu galw am dystiolaeth ychwanegol, ac yn yr un modd, dylai darparwyr fod yn rhydd o fewn terfyn amser i gyflwyno tystiolaeth ychwanegol y maent yn credu ei bod yn cefnogi eu hachos.

**C 8: A oes unrhyw flaenoriaethau eraill i'w hystyried yn gysylltiedig ag asesiadau ansawdd allanol?**

**Oes**

Rydym yn ystyried ei bod yn bwysig fod cytundebau clir yn cael eu rhoi ar waith rhwng cyrff asesu ansawdd allanol a gyda Medr i osgoi dyblygu a cheisio sicrhau ymagwedd ddi-dor a chymesur at asesiadau ansawdd allanol ac unrhyw fonitro cydymffurfio rheoleiddio. Er enghraifft, byddai gwaith arolygu arferol Estyn eisoes yn codi tystiolaeth yn ymwneud â llawer o'r amodau rheoleiddio, nid ansawdd yn unig.

Rydym wedi croesawu'r gwaith gyda Medr a QAA hyd yma i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o sut byddwn yn cydweithio. Rydym hefyd eisoes wedi datblygu gweithdrefnau clir ar gyfer hysbysu Medr am ddeilliannau arolygu, a byddem yn gobeithio, dros gyfnod, y bydd Medr yn gallu rhannu ystod o dystiolaeth y maent yn ei dal i helpu llywio gweithgarwch arolygu, yn bwysicaf oll lle gallai fod achosion posibl o ddiffyg cydymffurfio.

**C 9: Mae'r Fframwaith yn amlinellu ystod o setiau data wrth gefnogi asesiadau ansawdd. I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y ffynonellau data arfaethedig yn briodol?**

**Cytuno**

Rydym yn gefnogol i ddefnyddio prif setiau data a mathau atodol o dystiolaeth y gallai Medr eu defnyddio, fel yr amlinellir yn y Fframwaith.

Byddem yn awgrymu y dylai Medr ystyried sut bydd darparwyr yn casglu data dibynadwy a dilys ar gyfer cyrchfannau. Ar hyn o bryd, mae'n haws gwneud hyn mewn rhai sectorau addysg drydyddol nag eraill. Efallai bydd Medr yn dymuno ystyried rhoi system genedlaethol ar waith a fydd yn hwyluso casglu data ar gyrchfannau yn effeithiol ac yn drylwyr.

Rydym yn cytuno y dylai data yn y lle cyntaf fod yn sbardun ar gyfer sgwrsio gyda darparwyr i hwyluso a deall eu cyd-destun.

Rydym yn awgrymu, yn ogystal ag edrych ar y data ar gyfer unrhyw flwyddyn benodol, fod sylw hefyd yn cael ei roi i edrych ar dueddiadau mewn data a allai gynnig darlun mwy cyfannol o ansawdd y ddarpariaeth a'r dysgu. Ein nod yw defnyddio gwerth 3 blynedd o ddata i lywio ein barnau.

**C 10: A oes unrhyw ddata arall y dylid ei ystyried?**

**Oes**

Rydym yn credu bod Medr wedi amlinellu rhestr o ddata priodol i'w ystyried ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddem yn awgrymu bod y rhestr hon yn cael ei hadolygu'n gyson, oherwydd, yn ymarferol, gallai ddod yn amlwg fod setiau data eraill yn helpu darparu darlun cyflawn ac yn cael eu casglu'n well yn rhan o'r broses, yn hytrach nag yn ychwanegiad at y broses.

### Adran Dd: Ymyrraeth

**C 11: A yw'r adran yn darparu eglurder ar sut bydd Medr yn ymyrryd i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag ansawdd, safonau a gwelliant parhaus?**

**Ydy**

Rydym yn ystyried bod yr adran ar ymyrraeth yn darparu eglurder ar sut mae Medr yn bwriadu ymyrryd i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag ansawdd, safonau a gwelliant parhaus ar ffurfiau ysgrifenedig a thrwy ddiagramau, fel ei gilydd.

Rydym yn cydnabod bod dyfeisio system ymyrraeth os bydd achos o ddiffyg cydymffurfio yn gymhleth o ystyried ystod y ddarpariaeth o fewn y sector a bod angen cael gwahanol lefelau o ymyrraeth. Fodd bynnag, byddem yn awgrymu y gallai hefyd fod yn ddefnyddiol i gysylltu cyfnodau amser â lefelau ymyrraeth. Er enghraifft, pan fydd mân achos o ddiffyg cydymffurfio, fel unioni mater gweithdrefnol, gellir rhoi rhwng un a thri mis i'r darparwr ei gywiro. Gallai terfynau amser, er enghraifft, gael eu rhoi mewn lluosrifau o dri mis yn ôl yr hyn sy'n cael ei ystyried yn briodol i'r lefel. Pan fydd y darparwr yn cael anawsterau, gallai Medr ymestyn mewn cynyddrannau o fis. Byddai'r fethodoleg hon yn annog darparwyr i unioni materion mewn modd amserol ac yn ei gwneud yn haws i Medr fonitro.

Mewn man arall yn y dogfennau, crybwyllir y bydd Medr yn barnu p'un a fydd yn cyhoeddi nad yw darparwr yn cydymffurfio. Byddem yn awgrymu y dylai Medr weithredu arfer gyson yn hyn o beth er budd ei nod o ran tryloywder, natur agored a meithrin ymddiriedaeth yn y system. Byddai'n osgoi'r amgylchiadau lle gallai un darparwr deimlo'i fod yn cael cam fod ei achos o ddiffyg cydymffurfio yn cael ei gyhoeddi, tra bydd achos diffyg cydymffurfio darparwr arall ddim yn cael ei gyhoeddi. Byddai hyn hefyd yn lliniaru yn erbyn canlyniad anfwriadol gorfod mynd i'r afael â chwynion a all fynnu adnoddau ac amser.

**Myfyrdodau Terfynol**

| **C 12: A oes unrhyw fylchau o fewn y Fframwaith y dylid mynd i'r afael â nhw?** |
| --- |
| **Oes** |
| Mae'r dogfennau'n cyfeirio yn 'Ein Disgwyliadau' fod Medr yn disgwyl i ddarparwyr gydweithio â rhanddeiliaid, dysgwyr a'r gymuned ehangach. Mewn man arall, mae Medr yn dymuno annog cydweithio mewn ffyrdd sy'n golygu bod darparwyr yn galluogi dysgwyr i ddeall y llwybrau dilyniant sy'n agored iddynt, ac fel darparwyr, rhannu arfer effeithiol ac arloesedd. Byddai'n fuddiol pe bai Medr yn gallu dweud mwy am sut mae'n rhagweld y bydd yn annog a galluogi hynny i ddigwydd o fewn y sectorau sy'n creu'r sector trydyddol yng Nghymru, ac ar eu traws. |

| **C 13: A oes unrhyw elfennau penodol o fewn y drafft presennol y dylid eu pwysleisio neu'u cryfhau?** |
| --- |
| **Oes** |
| Gweler y nodiadau o dan Gwestiwn 11 a 12. |

| **C 14: Os oes gennych chi fwy o sylwadau yr hoffech eu rhannu ynglŷn â'r Fframwaith Ansawdd, nodwch nhw yma:** |
| --- |
| Rydym yn ystyried bod y Fframwaith Ansawdd yn darparu trosolwg manwl o ofynion a disgwyliadau. Mae'n dangos sut mae'r Fframwaith yn cyd-fynd â dogfen strategol ac yn disgrifio'r chwe egwyddor a'r meini prawf y bydd Medr yn eu defnyddio i wneud ei werthusiadau. Mae gwybodaeth a ddarparwyd ar ffurf diagram yn rhoi trosolwg defnyddiol. Mae'r Fframwaith yn amlinellu'n glir y cyrff y bydd yn gweithio gyda nhw o ran sicrhau ansawdd a chyfrifoldebau pob un o'r cyrff hynny. |

**Atodiad 1: Canllawiau ychwanegol ar gyfer darparwyr trydyddol**

| **C 15: A yw'r Atodiad hwn yn ystyried y dogfennau a'r gofynion allweddol eraill ar gyfer pob rhan o'r sector?** |
| --- |
| **Ydy** |
| **Os na, pa wybodaeth bellach sydd ei hangen?** |

Efallai bydd Medr eisiau ystyried ychwanegu nodyn o dan yr adran Addysg Uwch i egluro rôl Estyn mewn arolygu Addysg Gychwynnol Athrawon mewn prifysgolion a rôl y Bwrdd Addysg Gychwynnol Athrawon mewn achredu'r ddarpariaeth honno.

**Y Gymraeg**

**C 16: Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am farn ar effaith pob un o elfennau uchod y system reoleiddio arfaethedig ar y Gymraeg.**

**A ellid newid y cynigion i gynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau niweidiol ar:**

**Gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?**

**Gellid**

Efallai bydd Medr eisiau ystyried cryfhau ei gyfeiriadau at gyfleoedd ar gyfer y Gymraeg o fewn y prosesu ar gyfer ei drefnu. Ceir dolen at ddogfennau Llywodraeth Cymru, ac mae'n nodi y bydd yn gweithredu yn unol â'r egwyddorion a'r gofynion hynny, ond nid oes mynegiad clir ynglŷn â sut bydd Medr yn gweithredu yn hyn o beth, neu ddisgwyliadau o ran y darparwyr yn eu rôl yn darparu addysg o ansawdd da trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

**Na**

Gweler y nodyn uchod.

**Effaith ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)**

**C 17: Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar effaith pob un o elfennau uchod y system reoleiddio arfaethedig ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.**

**A fydd y cynigion yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015?**

**Byddan**

Rydym yn ystyried y bydd y cynigion a gyflwynwyd yn helpu Cymru i gyflawni mwyafrif y nodau a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Dylai'r nodau a'r egwyddorion a amlinellir yn y dogfennau arwain at welliant mewn addysg drydyddol yng Nghymru, gan gyfrannu o bosibl at y nodau yn y Ddeddf i greu Cymru ffyniannus, Cymru wydn, Cymru fwy cyfartal a Chymru iachach.

**Effaith ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant**

**C 18: Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar effaith pob un o elfennau uchod y system reoleiddio arfaethedig ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.**

**A yw'r cynigion yn ystyried yr angen i:**

**Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?**

**Yn rhannol**

Mae'r bwriad i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd gan, neu o dan, Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ymhlyg yn adran 'Cynhwysiant' yr egwyddorion rheoleiddio. Fodd bynnag, nid yw'n eglur yn y dogfennau a gallai Medr fod yn dymuno ystyried cryfhau'r elfen hon.

**Datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu?**

**Yn rhannol**

Fel yr uchod, mae hyn ymhlyg o fewn adran 'cynhwysiant' yr egwyddorion rheoleiddio, ond nid yw'n eglur. Efallai bydd Medr eisiau ystyried cryfhau'r elfen hon yn y dogfennau.

**Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu?**

**Yn rhannol**

Fel yr uchod.

**Lleihau anghydraddoldeb canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol?**

**Ydyn**

Yn gyffredinol, ceir cyfeiriadau da at ehangu cyfranogiad yn adran 'cynhwysiant' yr egwyddorion rheoleiddio sy'n ceisio sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfle cyfartal i elwa ar brofiadau a deilliannau o ansawdd uchel. Mae hyn yn cynnwys meithrin amgylcheddau dysgu diogel a chynhwysol, gan gynnal rheoleiddio mewn ffordd sy'n sensitif i amrywiaeth y dysgwyr ac addysg drydyddol ledled Cymru.

| |
|---|
| **C 19: Os oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu rhannu ynghylch yr effaith ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, nodwch nhw yma:**<br>**Dim.** |